**Polisi Prevent**

**Rheoli Fersiynau**

| Rhif y Fersiwn | Noddwr ym Mwrdd Gweithredol y Brifysgol | Corff/Swyddog Cymeradwyo | Dyddiad cymeradwyo |
|---|---|---|---|
| V_03 | Prif Swyddog Gweithredu ac Ysgrifennydd y Brifysgol | Bwrdd Gweithredol y Brifysgol | 12/11/2024. |

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

## 1. DIBEN

1.1 Pwrpas y polisi hwn yw amlinellu cyfrifoldebau'r Brifysgol o dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015[1], yn benodol mewn perthynas â Dyletswydd Prevent.

1.2 Mae Dyletswydd Prevent yn elfen allweddol o strategaeth wrthderfysgaeth Llywodraeth y DU. Ei nod yw lleihau’r bygythiad o derfysgaeth yn y DU drwy atal unigolion rhag bod yn derfysgwyr neu gynorthwyo gweithgareddau terfysgol.

1.3 Mae’r polisi hwn yn amlinellu sut mae Prifysgol Caerdydd yn mynd ati i sicrhau cydymffurfiaeth â’r Ddeddf a Dyletswydd Prevent, ei gweithdrefnau ar gyfer mynd i’r afael â phryderon a godwyd o fewn cymuned y Brifysgol, a’i rôl wrth gyfrannu at unrhyw ymateb gan nifer o asiantaethau i bryderon o’r fath.

## 2. CWMPAS

2.1 Mae'r Polisi hwn yn berthnasol i holl fyfyrwyr a staff Prifysgol Caerdydd, siaradwyr gwadd, deiliaid swyddi anrhydeddus, a'r rhai sy'n cynnal busnes ar ran y Brifysgol.

2.2 At ddibenion y polisi hwn a’i atodiadau, bydd y diffiniadau canlynol yn berthnasol:

Terfysgaeth: 'gweithred sy'n peryglu neu'n achosi trais difrifol i berson/pobl; yn achosi difrod difrifol i eiddo; neu'n ymyrryd yn ddifrifol â system electronig neu’n tarfu arni. Rhaid i'r defnydd neu'r bygythiad fod wedi’i gynllunio i ddylanwadu ar y llywodraeth neu ddychryn y cyhoedd ac fe gaiff ei wneud er mwyn hyrwyddo achos gwleidyddol, crefyddol neu ideolegol'.
Eithafiaeth: 'Gwrthwynebiad croch neu weithredol i werthoedd, gan gynnwys democratiaeth, rheol y gyfraith, rhyddid yr unigolyn a pharch a goddefgarwch tuag at wahanol ffydd a chredoau.'
Radicaleiddio: 'Y broses sy’n argyhoeddi person i fod o blaid terfysgaeth a mathau o eithafiaeth sy'n arwain at derfysgaeth'.

## 3. DATGANIAD POLISI

3.1 Mae Prifysgol Caerdydd wedi ymrwymo i gynnal y rhyddid i lefaru a rhyddid academaidd fel ei gilydd, yn ogystal â sicrhau bod ei myfyrwyr a'i staff yn cael eu hamddiffyn a'u diogelu rhag y risg o gael eu denu i derfysgaeth. Mae’r polisi hwn yn nodi ymrwymiad y Brifysgol i atal myfyrwyr rhag ymwneud â therfysgaeth, gan gydnabod y gall terfysgaeth fod yn gysylltiedig ag amrywiaeth o

[1] Y Swyddfa Gartref (2015) Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 https://www.gov.uk/government/collections/counter-terrorism-and-security-bill

ideolegau.

3.2 Mae annog terfysgaeth a/neu geisio cefnogaeth ar gyfer corff gwaharddedig yn drosedd. Mae'r polisi hwn yn egluro ein hymagwedd at elfennau a darpariaethau penodol y Ddeddf fel y maent yn berthnasol i ddarparwyr addysg uwch, yn ogystal â'n hymagwedd fwy cyffredinol at faterion yn ymwneud â'r perygl i'n staff a'n myfyrwyr mewn perthynas ag aflonyddu neu radicaleiddio o unrhyw ffynhonnell, a chamau perthnasol sy'n galluogi ein myfyrwyr i ddysgu mewn amgylcheddau diogel sy'n eu hysgogi'n ddeallusol.

## 4. POLISI

### Asesiad Risg

4.1 Yn unol â'r canllawiau statudol ar gyfer darparwyr addysg uwch bydd Prifysgol Caerdydd yn nodi cofrestr/asesiad risg a chynllun gweithredu a gaiff ei[2] adolygu'n rheolaidd. Bydd hyn yn cynnwys bodloni ei hun a'r Llywodraeth bod polisïau a gweithdrefnau priodol ar waith i helpu i nodi a chefnogi unrhyw unigolyn a allai fod yn agored i niwed a rheoli'r gwaith o oruchwylio risgiau yn glir.

### Ymgysylltu

4.2 Bydd Prifysgol Caerdydd yn mynd ati i ymgysylltu â phartneriaid eraill gan gynnwys bwrdd Prevent De Cymru, yr oeddem yn aelod sefydlol ohono, gan ein bod yn cydnabod bod materion sy'n ymwneud â radicaleiddio yn mynd y tu hwnt i ffiniau sefydliadol. Drwy'r Bwrdd hwn, byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â phrifysgolion lleol ar draws y rhanbarth, gan gynnwys y llywodraeth a gwasanaethau diogelwch i rannu gwybodaeth ac arferion gorau.

### Atgyfeiriadau

4.3 Bydd y Brifysgol yn ceisio nodi unigolion agored i niwed yn y gymuned yn gynnar a gwneud yn siŵr eu bod yn cael cymorth priodol ac y gofelir am eu lles. Bydd cyfrifoldebau'r Brifysgol yn cael eu rheoli drwy ein dull diogelu presennol yn y lle cyntaf[3].

4.4 Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod staff a myfyrwyr yn cael gwybod am y broses o atgyfeirio pryderon am unigolion. Gall unrhyw aelod o staff neu fyfyriwr fynegi pryderon am rywun o fewn cymuned y Brifysgol a allai fod yn agored i'r risg o gael ei ddenu at eithafiaeth dreisgar yn ôl pob golwg, yn seiliedig ar ymddygiad a welir neu wybodaeth a dderbynnir. Mae manylion y broses hon wedi'u hamlinellu yn Atodiad 1.

4.5 Os caiff risg benodol ei nodi, bydd Grŵp Prevent y Brifysgol yn asesu'r risg honno ac yn cynghori ar gymryd camau yn unol â hynny. Mae cylch gorchwyl y grŵp hwn i'w weld yn Atodiad B.

4.6 Dylai unrhyw aelod o gymuned y Brifysgol sydd â phryder y gallai myfyriwr fod mewn perygl o gael ei gam-drin, neu rywun yn camfanteisio arno, gyfeirio at Wasanaethau Myfyrwyr yn y lle cyntaf drwy'r dulliau hysbysu arferol. Dylid cyfeirio pryderon cychwynnol y gallai aelod o staff fod mewn perygl at y cyswllt AD perthnasol a fydd, lle bo'n briodol, yn hysbysu'r Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant (neu ddirprwy). Mae'r Brifysgol yn ymwybodol bod arwyddion o fod yn agored i eithafiaeth yn debyg i arwyddion o fod yn agored i bob math o gamdriniaeth. Mewn achosion o'r fath, rydym yn awyddus i ddeall y sefyllfa yn llawn a rhoi lles y person sy'n agored i niwed yn gyntaf yn ein hymateb a chynnig ymyriadau priodol.

---

[2] Dilyn eich crefydd - Astudiaeth - Prifysgol Caerdydd

[3] Polisi diogelu plant ac oedolion mewn perygl - Gwybodaeth i'r cyhoedd - Prifysgol Caerdydd

### Gwasanaethau Myfyrwyr a Chaplaniaeth

4.7 Bydd y Brifysgol yn darparu gwasanaethau cymorth proffesiynol i fyfyrwyr, a bydd tiwtor personol yn cael ei neilltuo i bob myfyriwr fel yr amlinellir yn ymrwymiadau'r Brifysgol yn Siarter y Myfyrwyr.[4]. Mae hon yn elfen allweddol o strategaeth ddiogelu Prifysgol Caerdydd, gan ei bod yn gwneud yn siŵr bod unrhyw bryderon a nodir pan mae'r tiwtor mewn cysylltiad â'r myfyriwr yn gallu cael eu cyfeirio'n briodol am gymorth neu gamau pellach.

4.8 Bydd y Brifysgol yn rhoi cymorth ysbrydol a chaplaniaeth i fyfyrwyr. Bydd hyn yn cynnwys caplaniaeth aml-ffydd a man penodol ar gyfer gweddïo/myfyrio. Caiff yr ystafelloedd hyn eu gweithredu yn unol â'n Polisi Ystafelloedd Tawel[5]. Bydd y Brifysgol yn cysylltu â grwpiau ffydd lleol hefyd i wneud yn siŵr ein bod yn integreiddio â'r gymuned leol

### Siaradwyr Allanol a Digwyddiadau

4.9 Bydd y Brifysgol yn gwneud yn siŵr bod ganddi Gôd Ymarfer priodol ar gyfer Siaradwyr Allanol[6] a adolygir yn rheolaidd. Bydd y Côd Ymarfer hwn yn manylu ar yr asesiadau risg angenrheidiol y mae'n rhaid eu cwblhau. Bydd yr asesiadau hyn yn galluogi'r Brifysgol i ystyried amddiffyn pobl sy'n agored i niwed rhag cael eu tynnu i derfysgaeth drwy ddod i gysylltiad uniongyrchol â safbwyntiau eithafol na chaiff eu herio ac sy'n groes i'n hymrwymiad i ddiogelwch, cydraddoldeb ac amrywiaeth myfyrwyr a staff.

4.10 Pan fo risgiau'n cael eu nodi sy'n peri pryder mewn cysylltiad â Dyletswydd Prevent y Brifysgol, cyfeirir y mater at Weithgor Strategaeth Prevent fel bod modd nodi camau rheoli priodol a chymesur.

### Undeb y Myfyrwyr

4.11 Bydd y Brifysgol yn cydweithio'n agos ag Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd i wneud yn siŵr bod Undeb y Myfyrwyr, lle bo'n briodol, yn ategu'r polisïau y mae'r Brifysgol yn eu datblygu yn y maes hwn.

### Technoleg Gwybodaeth

4.12 Mae'r Brifysgol yn gweithredu polisi Defnydd Derbyniol o TG sy'n berthnasol i bob defnydd o gyfleusterau TG. Rydym ni'n nodi yn y polisi hwnnw amrywiaeth o weithgareddau a fyddai'n peri pryder i ni gan gynnwys materion sy'n codi o ddyletswydd statudol y Brifysgol dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015. Mae hyn yn cynnwys creu, lawrlwytho, storio, trosglwyddo neu arddangos deunydd sy'n hyrwyddo neu sy'n annog casineb hiliol neu grefyddol, gweithgareddau terfysgol neu drosedd casineb; neu wybodaeth gyfarwyddol am unrhyw weithgareddau anghyfreithlon.

4.13 Mae'r Brifysgol yn defnyddio hidlo fel modd i gyfyngu ar fynediad at gynnwys amhriodol. Gall hyn gynnwys hidlo rhannol lle dangosir rhybudd i ddefnyddiwr TG cyn agor cynnwys a allai fod yn amhriodol.

### Moeseg Ymchwil

4.14 Bydd ymchwil sy'n cynnwys bodau dynol, deunydd dynol neu ddata dynol, gan gynnwys ymchwil sy'n gysylltiedig ag eithafiaeth yn cadw at ein Côd Ymarfer Uniondeb Gwaith Ymchwil a'i Lywodraethu[7], sy'n ei gwneud yn ofynnol bod asesiad risg yn cael ei gynnal ar gyfer pob astudiaeth ymchwil i bennu'r risgiau posibl i'r sefydliad, yr ymchwil, diogelwch a lles y rhai sy'n cymryd rhan, a nodi'r gofynion cyfreithiol a moesegol sy'n llywodraethu'r ymchwil.

---

[4] Darllenwch Siarter y Myfyrwyr - Myfyrwyr newydd - Prifysgol Caerdydd

[5] Dilyn eich crefydd - Astudiaeth - Prifysgol Caerdydd

[6] Rhyddid i lefaru - Gwybodaeth i'r cyhoedd - Prifysgol Caerdydd

[7] Uniondeb Gwaith Ymchwil a'i Lywodraethu. Uniondeb Gwaith Ymchwil a'i Lywodraethu - Ymchwil - Prifysgol Caerdydd

**Rhannu Data**

4.15 Wrth ddod i benderfyniad i rannu unrhyw wybodaeth â chyrff/unigolion allanol, bydd y Brifysgol yn cadw at Ddeddf Diogelu Data 2018.

4.16 Bydd y Brifysgol yn sefydlu cytundeb rhannu data ffurfiol hefyd gyda Bwrdd Prevent De Cymru i'w galluogi i gyflawni ei ddyletswyddau o dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015.

**Hyfforddi staff**

4.17 Bydd y Brifysgol yn gwneud yn siŵr bod hyfforddiant priodol yn cael ei gynnig i staff. Byddwn ni'n blaenoriaethu'r staff y mae'n debygol fod angen codi eu hymwybyddiaeth o'r agenda Prevent (e.e. rheoli gwasanaethau diogelwch, gweithwyr cymorth myfyrwyr proffesiynol, staff undeb y myfyrwyr, caplaniaid) a byddwn yn monitro ac yn parhau i adnewyddu hyn yn flynyddol.

4,18 Lle bo'n briodol gellir ymgynghori hefyd â thîm AD y Brifysgol i ddynodi staff sydd angen iddynt fod ag ymwybyddiaeth o'r agenda Prevent.

## 5. ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU

5.1 Y Prif Swyddog Gweithredu ac Ysgrifennydd y Brifysgol yw noddwyr Bwrdd Gweithredol y Brifysgol ar gyfer y polisi hwn.

5.2 Y Tîm Cydymffurfiaeth a Risg (Swyddfa Ysgrifennydd y Brifysgol) yw perchennog y polisi.

5.3 Y Cyfarwyddwr Bywyd Myfyrwyr yw arweinydd/cydlynydd enwebedig Prevent ar ran y Brifysgol ac mae'n gyfrifol am gynnull Panel Prevent (gweler Atodiad B) mewn ymateb i bryder a godir ynghylch unigolyn a allai fod mewn perygl o gael ei dynnu i mewn i eithafiaeth dreisgar.

5.4 Mae Grŵp Diogelu'r Brifysgol yn cynorthwyo'r gwaith o ddatblygu a monitro ein dull o greu a chynnal cymuned ddiogel ar draws y sefydliad cyfan a diogelu unigolion sy'n cynnwys Prevent.

5.5 Bydd Gweithgor Prevent (gweler Atodiad B) yn adolygu diweddariadau ar asesiadau risg sefydliadol, yn monitro sut mae Polisi Prevent yn cael ei roi ar waith, yn cynghori ar hyfforddiant priodol i staff gan olrhain cyfraddau cwblhau, yn adolygu Polisi Prevent yn ffurfiol bob tair blynedd, yn ogystal â chynorthwyo'r gwaith o gwblhau'r adroddiad blynyddol i Medr.

5.6 Drwy noddi'r polisi hwn, bydd Bwrdd Gweithredol y Brifysgol yn gwneud yn siŵr bod camau priodol (gan gynnwys hyfforddiant) wedi'u cymryd i sicrhau bod yr uwch-arweinwyr yn ymwybodol o ofynion a goblygiadau'r polisi hwn ac yn eu gorfodi i rannu gwybodaeth â'r staff sy'n gysylltiedig â gwneud penderfyniadau polisi yn eu priod feysydd.

## 6. POLISÏAU CYSYLLTIEDIG

6.1 Mae'r polisi hwn yn rhan o fframwaith cynghori ehangach sy'n ymwneud â diogelu a lles staff a myfyrwyr.

6.2 Mae'n gysylltiedig â pholisïau eraill y Brifysgol, yn benodol –

- Diogelu Plant ac Oedolion mewn Perygl
- Polisi Urddas yn y Gwaith ac Wrth Astudio
- Côd Ymarfer Rhyddid Barn
- Rheoliadau Ymddygiad Myfyrwyr
- Polisi Crefydd a Chred
- Polisi Ystafelloedd Tawel

## 7. YMHOLIADAU

7.1 Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu ymholiadau ynghylch y polisi a'r weithdrefn hon, cysylltwch â'r tîm Cydymffurfiaeth a Risg drwy ebost – compliancandrisk@caerdydd.ac.uk.

## 8. MONITRO AC ADOLYGU

8.1 Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n anffurfiol yn flynyddol gan Berchennog y Polisi ac yn ffurfiol bob tair blynedd.

8.2 Bydd Gweithgor Prevent yn monitro sut y rhoddir y polisi, y cynlluniau gweithredu cysylltiedig a'r asesiadau risg ar waith (gweler Atodiad B).

## 9. GWYBODAETH RHEOLI FERSIYNAU

| | |
|---|---|
| Enw'r Ddogfen | Polisi Prevent |
| Noddwr y Polisi ym Mwrdd Gweithredol y Brifysgol | Prif Swyddog Gweithredu ac Ysgrifennydd y Brifysgol |
| Perchennog y Polisi | Pennaeth Cydymffurfio a Risg |
| Awdur(on) y Polisi | Ian Johnson, Swyddog Cydymffurfio<br>Tîm Cydymffurfiaeth a Risg, Swyddfa Ysgrifennydd y Brifysgol<br>Simon Wright, Cofrestrydd Academaidd |
| Rhif y Fersiwn | V0_3 |
| Dyddiad yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg | I'W GADARNHAU |
| Dyddiad Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd (lle bo'n berthnasol) | Amh. |
| Dyddiad Cymeradwyo | Diwrnod/mis/blwyddyn |
| Cymeradwywyd Gan | Yr Is-Ganghellor (Bwrdd Gweithredol y Brifysgol)<br>*neu*<br>Enw'r Pwyllgor [cwblhewch fel y bo'n briodol] |
| Dyddiad Gweithredu | *Diwrnod/mis/blwyddyn* |
| Dyddiad yr Adolygiad Diwethaf | *Diwrnod/mis/blwyddyn* |
| Dyddiad yr Adolygiad Nesaf | *Diwrnod/mis/blwyddyn* |
| | |

**Cofnod o Newidiadau**

Dylai'r Awdur lenwi'r tabl isod bob tro y gwneir newid i'r polisi

| Fersiwn wedi'i diwygio a dyddiad yr adolygiad | Adolygydd/adolygwyr | Disgrifiad o'r newid | Fersiwn a grëwyd |
|---|---|---|---|
| V0_3 | Ian Johnson<br>Thomas Tudor Jones a Catrin Morgan, Cydymffurfiaeth a Risg, Swyddfa Ysgrifennydd y Brifysgol. | Ar dempled newydd. Adfer/diweddaru hyperddolenni wedi torri | 01/09/2024 |
| | | | |

**Atodiad A – Proses Atgyfeirio**

Os bydd yr ymddygiad a ddangosir yn dangos bod angen ystyriaeth bellach neu ymyriad, dyma'r broses atgyfeirio y dylid ei dilyn fel arfer:

I. Dylid rhoi gwybod am y pryder penodol i aelod priodol o staff yn yr Ysgol Academaidd neu'r Adran Gwasanaethau Proffesiynol (ee Pennaeth Ysgol, rheolwr llinell) yn y lle cyntaf. Dylai'r uwch-aelod o staff fynd ati wedyn i roi gwybod drwy adnodd Rhoi Gwybod a Rhoi Cymorth y Brifysgol. Bydd y Tîm Cymorth ac Ymyrraeth i Fyfyrwyr yn y tîm Bywyd Myfyrwyr yn ei asesu yn gyntaf.

II. Gellir cynnull panel i ystyried yr holl opsiynau sydd ar gael yn seiliedig ar y dadansoddiad risg hwn a dod i benderfyniad a yw'r unigolyn yn cael ei gyfeirio at broses[8] Channel.

III. Gall Cydlynydd Prevent y Brifysgol ymgynghori ag awdurdodau statudol allanol i asesu risgiau cymharol neu benderfynu a ddylid mynd i'r afael â phryderon unigol yn gyntaf drwy gamau diogelu mewnol. I fyfyrwyr, gall hyn gynnwys y gwasanaeth Cymorth i Fyfyrwyr, ac i staff, efallai y bydd Adnoddau Dynol yn gysylltiedig.

IV. Os oes pryder uniongyrchol ynghylch lles corfforol person, ffonio 999 a rhoi gwybod i Gydlynydd Prevent y Brifysgol cyn gynted â phosibl yw'r broses atgyfeirio gywir.

[8] Mae safbwynt llywodraeth y DU ar Channel a chanllawiau cysylltiedig i'w gweld yma: https://www.gov.uk/government/publications/channel-guidance

**Atodiad B – Grŵp Diogelu a Phanel Prevent**

Bydd Cyfarwyddwr Bywyd Myfyrwyr yn arwain panel amlddisgyblaethol i fonitro cydymffurfiaeth ar draws y Brifysgol. Mae aelodau'r Gweithgor a'r Panel yn cynnwys:

- Cyfarwyddwr Bywyd Myfyrwyr, sef y Cadeirydd
- Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant
- Pennaeth Cydymffurfio a Risg
- Pennaeth Diogelwch
- Cynrychiolydd o Undeb y Myfyrwyr

Gall holl aelodau'r Panel ddewis anfon enwebai i ddirprwyo ar eu rhan.

**Cylch Gorchwyl Gweithgor Prevent**

I. Bydd y grŵp yn ystyried diweddariadau ar asesiadau risg sefydliadol a chamau gweithredu, yn ogystal â monitro sut mae Polisi Prevent yn cael ei roi ar waith.
II. Bydd y grŵp yn cynghori ar y staff priodol a fyddai'n elwa o hyfforddiant a bydd yn cael adroddiadau ar gyfraddau cwblhau.
III. Bydd y gweithgor yn adolygu polisi Prevent yn ffurfiol bob 3 blynedd.
IV. Bydd y gweithgor yn cynorthwyo'r gwaith o gwblhau'r adroddiad blynyddol ar gyfer Medr.

**Cylch Gorchwyl Panel Prevent**

I. Bydd Cydlynydd Prevent y Brifysgol yn cynnull Panel Prevent pan fo angen mewn ymateb i bryder a godir ynghylch unigolyn a allai fod mewn perygl o gael ei dynnu i mewn i eithafiaeth dreisgar.

II. Bydd y Panel yn cynnwys yr unigolion a nodir uchod (fel y bo'n briodol), ond gall y Cadeirydd ofyn i aelodau staff perthnasol eraill ddod i'r cyfarfod, fel y bo'n briodol, i gynnig rhagor o wybodaeth a/neu gyngor.

III. Bydd y Panel yn cael ei gynnull fesul achos a bydd yn penderfynu a oes angen cyfeirio achos unigol at asiantaeth allanol am gymorth pellach, i broses Panel Channel, neu ei gyfeirio'n ôl at ddarpariaethau lles a diogelu presennol yn y Brifysgol.

IV. Os oes pryder difrifol, gellir cyfeirio ar unwaith i'r awdurdodau, y tu allan i Banel Dyletswydd i Atgyfeirio Prevent, yn enwedig os penderfynir bod risg sylweddol o niwed.

V. Bydd y Panel yn cofnodi cyfeiriadau yn ei gofrestr i gynorthwyo'r gwaith o gwblhau ei adroddiad blynyddol i Medr.